Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

| | |
|---|---|
| **TEITL** | **Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Gwin) (Diwygio etc) 2021** |
| **DYDDIAD** | **12 Gorffennaf 2021** |
| **GAN** | **Lesley Griffiths MS, Minister for Rural Affairs and North Wales and Trefnydd.** |

**OS a osodwyd yn Senedd y DU, sy'n diwygio Cyfraith ac is-ddeddfwriaeth yr UE a ddargedwir mewn maes datganoledig**

**Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Gwin) (Diwygio etc) 2021**

Mae Rheoliadau 2021 yn diwygio deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd ("yr UE") a ddargedwir:

<u>Deddfwriaeth yr UE sy'n cael ei diwygio</u>

- Rheoliad (EC) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor

<u>Deddfwriaeth ddomestig sy'n cael ei diwygio</u>

- Rheoliadau Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd mewn Cynhyrchion Amaethyddol (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S. 2020 Rhif 1452)

- Cefnogir y diwygiad uniongyrchol i Reoliad (EU) Rhif 1308/2013 drwy ddirymu rheoliad 6(3) o O.S. 2020/1452. Cafodd y gwelliant hwnnw ei wneud yn aneffeithiol gan reoliad 7(4) o O.S. 2020/1446 ac mae'n cael ei ddileu er eglurder.

**Unrhyw effaith y gallai'r OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru o'r farn bod Rheoliadau 2021 yn cynnwys darpariaethau, sydd o fewn cwmpas cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, ac felly ni ddylid rhoi'r swyddogaethau cysylltiedig i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig.

Mae DEFRA o'r farn bod diwygiadau yn Rheoliadau 2021 yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl. Ar y sail hon, mae DEFRA yn bwriadu trosglwyddo swyddogaethau amrywiol sy'n ymwneud â dynodiadau daearyddol gwin i'r Ysgrifennydd Gwladol.

**Diben y diwygiadau**

Diben Rheoliadau 2021 yw mynd i'r afael â diffygion yng nghyfraith yr UE a ddargedwir. Mae'r offeryn yn cywiro'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu'r cynllun dynodiadau daearyddol ar gyfer gwin. Mae'n cywiro Erthygl 107 o Reoliad (UE) Rhif 1308/2013, ynghylch enwau gwin gwarchodedig a thermau traddodiadol. Diwygiwyd erthygl 107 gan reoliad 7 o O.S. 2019/828, a ddiwygiwyd wedyn gan O.S. 2020/1452. Fodd bynnag, hepgorwyd rheoliad 7 o O.S. 2019/828 drwy gamgymeriad gan O.S. 2020/1446, sy'n golygu na ddaeth y diwygiadau i Erthygl 107 i rym ar ddiwrnod olaf y cyfnod pontio fel y bwriadwyd. Mae'r rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau cyfatebol i Erthygl 107 i'r rhai y bwriedir iddynt ddod i rym ar 31 Rhagfyr 2020. Fodd bynnag, mae hyn wedi arwain at newid yn nyddiad cofrestru cynllun y DU ar gyfer y rhan fwyaf o ddynodiadau daearyddol gwin a thelerau traddodiadol – rhwng 31 Rhagfyr 2020 a 10 Mawrth 2021.

Bydd y cywiriad yn sicrhau bod yr holl dynodiadau daearyddol sefydledig ar gyfer gwin a thermau traddodiadol yn cael eu diogelu ac yn ymddangos ar y gofrestr gyhoeddus o winoedd a thermau traddodiadol a ddiogelir ym Mhrydain Fawr. Mae hyn yn ei dro yn sicrhau bod Llywodraeth y DU yn cydymffurfio'n llawn â'i hymrwymiadau o ran Dynodiadau Daearyddol o dan y Cytundeb Ymadael â'r UE.

Mae Rheoliadau 2021 a’r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi manylion tarddiad, diben ac effaith y diwygiadau ar gael yma:
https://www.legislation.gov.uk/uksi/2021/279/memorandum/contents

**Ymateb i Lywodraeth y DU**

Safbwynt Llywodraeth Cymru yw bod amaethyddiaeth a'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) wedi'u datganoli ac nad ydynt yn ymwneud â'r materion a gadwyd yn ôl o dan unrhyw bennawd yn Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth y DU yn cytuno, ac mae'n credu bod pwnc Rheoliadau 2021 wedi'i gadw yn ôl. Felly, nid yw Llywodraeth y DU wedi ceisio cydsyniad Gweinidogion Cymru.

Barn Llywodraeth Cymru yw bod y swyddogaethau uchod yn ymwneud yn uniongyrchol ag amcanion y Cyd-drefniadaeth ar gyfer y Marchnadoedd i wella cynhyrchiant y sector

amaethyddol ac felly'n cynyddu pa mor gystadleuol yw cynnyrch sylfaenol yn y farchnad. Mae amaethyddiaeth a'r PAC o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd (h.y. wedi'u ddatganoli). O dan delerau'r Cytundeb Rhynglywodraethol, dylid bod wedi ceisio cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gosod Rheoliadau 2021.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ysgrifennu at Lywodraeth y DU i'w hysbysu o'n barn nad yw'n briodol i Weinidogion Llywodraeth y DU wneud penderfyniadau unochrog ar faterion sy'n cael effaith uniongyrchol ar feysydd cymhwysedd datganoledig.